Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# TECHNEGYDD CERBYDAU HGV

**Adran y Fflyd, Cyffordd Llandudno**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**(Oriau sefydlog Llun-Iau 8am-4pm Gwener 8am-3.30pm)**
**Graddfa NWFRS GTAGC 07 £34,314 i £ 37,035 y flwyddyn**

Rydym yn awyddus i benodi Technegydd Cerbydau HGV i ymuno â'n Hadran Fflyd. Mae'r rôl yn gyfrifol am wasanaethu o ddydd i ddydd, gwaith cynnal a chadw ataliol ac wedi ei ragweld ac atgyweiriadau i gerbydau, peiriannau ac offer y gwasanaeth tân i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn ddiogel ac yn weithredol. Gan gynnal gorsaf waith ddiogel a glân, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y gallu i wneud diagnosis o ddiffygion mewn systemau mecanyddol a thrydanol er mwyn penderfynu pa ddulliau atgyweirio effeithiol sydd eu hangen.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfathrebwr da, gyda sgiliau trefnu trylwyr ar gyfer cynllunio llwythi gwaith er mwyn bodloni terfynau amser a gofynion rheoli amser. Gan weithio fel rhan o dîm o dechnegwyr aml-sgiliau, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn darparu cymorth cynnal a chadw wrth gefn mewn argyfwng y tu allan i oriau fel rhan o system rota (gyda lwfans wrth gefn).

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos (gyda thystiolaeth) y sgiliau fel y'u hamlinellir yn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person, gan gynnwys y gofynion allweddol canlynol:

- Tystysgrif City and Guilds Crefft Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Trwm neu gyfwerth.
- Gwybodaeth a phrofiad o weithio mewn amgylchedd cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau masnachol.
- Trwydded yrru lawn y DU.
- Meddu ar drwydded yrru Categori C LGV, neu'n gweithio tuag ato ar hyn o bryd gyda'r gallu i gwblhau o fewn y cyfnod prawf.
- Meddu ar Dystysgrif Cymhwysedd IRTEC i statws Meistr Technegydd neu'n gweithio tuag ato, gyda'r gallu i'w gynnal ar ôl ei gyflawni.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol, gan ysgogi eich hun yn eich gwaith.
- Y gallu i reoli eich amser a blaenoriaethu llwyth gwaith, gan fodloni terfynau amser.
- Gallu cynnal sgwrs syml ar Lefel 2 yn y Gymraeg - os nad yw hynny eisoes wedi'i ddangos ar eich ffurflen gais, bydd angen ei gyflawni o fewn cyfnod prawf o 12 mis, gyda chymorth yn cael ei roi fel y bo'n briodol.
- Mae'r swydd hon yn amodol ar Wiriad DBS Safonol a geirdaon boddhaol.

Mae gweithdy adran y Fflyd wedi'i leoli yng Nghyffordd Llandudno. Mae rôl y technegydd cerbydau hefyd yn gofyn am hyblygrwydd i deithio i wahanol leoliadau ar draws Gogledd Cymru ac mae'n cynnwys gwneud gwaith mewn amodau garw.

Live Fear Free Helplin[e]
0808 80 10 8[00]
call • text • live chat • e[mail]
Home shouldn't be a place of [fear]
Help is available 24/7

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae rhagor o wybodaeth am y rôl, gan gynnwys disgrifiad swydd a phecyn ymgeisio, ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru neu drwy e-bostio: recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais ydi hanner dydd, Dydd Llun 07/04/2025**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau

PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost

Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall

Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol